

Safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad

Gorffennaf 2012



Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC)
yw'r corf rheoleiddio ar gyfer fferyllwyr,
technegwyr fferyllol a safleoedd
fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu dilyn. Fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol sydd wedi eu cofrestru gyda ni yw gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Mae'n bwysig eich bod yn cyrraedd ein safonau a'ch bod yn gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd eich ymddygiad yn cael ei fesur yn erbyn y safonau a gallai methu â chydymffurfio â'r safonau beryglu eich safle fel aelod cofrestredig. Os bydd rhywun yn mynegi pryderon amdanoch chi byddwn yn ystyried y safonau hyn wrth benderfynu a oes angen i ni weithredu.

Mae llawer ffurf ar waith gweithiwr fferyllol proffesiynol a gallech fod yn gweithio mewn gwahanol gyd-destunau, yn cynnwys ymarfer clinigol, addysg, ymchwil a diwydiant.

Os ydych yn weithiwr fferyllol proffesiynol mae'r safonau hyn yn berthnasol i chi, hyd yn oed os nad ydych yn trin, gofalu am neu'n rhyngweithio'n uniongyrchol gyda chleifion a'r cyhoedd.

Yn ogystal â safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad, rydyn ni'n cyhoeddi safonau eraill y bydd angen i chi eu hystyried ochr yn ochr â'r safonau hyn.

I'ch helpu i ddeall y safonau hyn, rydyn ni wedi cyhoeddi rhestr termau. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i'ch cynghori ar yr hyn y bydd angen i chi ei wneud i gyrraedd y safonau hyn.

Mae'r rhestr termau a'r canllawiau ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org

Y saith egwyddor

Fel gweithiwr fferyllol proffesiynol rhaid i chi:

1. Sicrhau mai'r cleifion yw'ch blaenoriaeth gyntaf
2. Defnyddio'ch crebwyll proffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd
3. Dangos parch at eraill
4. Annog cleifion a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal
5. Datblygu eich gwybodaeth a'ch galluoedd proffesiynol
6. Bod yn onest ac yn rhywun y gellir ymddiried ynddo
7. Cymryd cyfrifoldeb dros eich ymarferion gweithio.

Cyrraedd y safonau

Nid ydym yn gorchymyn yn haearnaidd y ffyrdd o gyrraedd ein safonau. Fel arfer, gellir cyrraedd pob safon mewn mwy nag un ffordd a gallai'ch dull chi o gyrraedd ein safonau newid dros amser.

Mae pob safon yr un mor bwysig â'i gilydd.

Rydych chi'n atebol yn broffesiynol dros eich ymarfer. Golyga hyn mai chi sy'n gyfrifol am yr hyn a wnewch ac am yr hyn na wnewch, waeth beth fo'r cyngor neu'r cyfeiriad a ddarperir i chi gan eich rheolwr neu weithiwr proffesiynol arall. Rhaid i chi ddefnyddio eich crebwyll proffesiynol wrth benderfynu ar eich gweithredoedd a dylech ddefnyddio ein safonau fel sail i'ch penderfyniadau.

Efallai y byddwch yn wynebu sefyllfaoedd lle bydd gwrthdaro rhwng cyfrifoldebau proffesiynol neu gyfreithiol. Yn yr amgylchiadau hyn rhaid i chi ystyried pob ffordd bosibl o ymateb a'r risgiau a buddion sydd ynghlwm wrth bob posibilrwydd cyn penderfynu ar yr hyn sydd o fwyaf o les i gleifion a'r cyhoedd.

1 Sicrhau mai'r cleifion yw'ch blaenoriaeth gyntaf

Mae gofal, lles a diogelwch cleifion wrth galon ymarfer proffesiynol. Rhaid mai dyma eich blaenoriaeth gyntaf wastad. Hyd yn oed os nad oes gennych gyswllt uniongyrchol â chleifion gall eich penderfyniadau neu ymddygiad effeithio ar eu gofal neu eu diogelwch.

Rhaid i chi:

- 1.1 Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gennych yn ddiogel ac o ansawdd briodol
- 1.2 Gweithredu er diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd
- 1.3 Hybu iechyd cleifion a'r cyhoedd
- 1.4 Cyrchu pob gwybodaeth sydd ei hangen i asesu anghenion person er mwyn rhoi'r driniaeth a'r gofal priodol
- 1.5 Os oes angen, cyfeirio cleifion at weithwyr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol eraill, neu sefydliad perthnasol
- 1.6 Gwneud eich gorau i ddarparu meddyginiaethau a gwasanaethau proffesiynol eraill yn ddiogel pan fo ar gleifion eu hangen
- 1.7 Bod yn hyderus fod cleifion neu eu gofawyr yn gwybod sut i ddefnyddio'u meddyginiaethau
- 1.8 Cadw cofnodion llawn a chywir o'r gwasanaethau proffesiynol a ddarparwch, a hynny mewn dull dealladwy ac eglur
- 1.9 Sicrhau bod y cyfleusterau, offer a'r adnoddau sydd arnoch eu hangen i ddarparu'ch gwasanaethau proffesiynol yn ddiogel ac yn effeithiol ar gael yn hawdd i chi
- 1.10 Trefnu adolygiadau, archwiliadau ac asesiadau risg rheolaidd i warchod diogelwch cleifion a'r cyhoedd ac i wella eich gwasanaethau proffesiynol.

2 Defnyddio'ch crebwyll proffesiynol er budd cleifion a'r cyhoedd

Mae cydbwysu anghenion unigolion gydag anghenion cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn greiddiol i ymarfer proffesiynol.

Rhaid i chi:

- 2.1 Ystyried a gweithredu er lles gorau cleifion unigol a'r cyhoedd
- 2.2 Sicrhau nad effeithir ar eich crebwyll proffesiynol gan fudd personol neu sefydliadol, cymhelliannau, targedau neu fesurau tebyg
- 2.3 Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i chi yn y ffordd orau posibl
- 2.4 Bod yn barod i herio barn eich cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill os oes gennych reswm i gredu y gallai eu penderfyniadau effeithio ar ddiogelwch neu ofal eraill
- 2.5 Mewn argyfwng, ystyried pob opsiwn posibl a gwneud eich gorau i roi gofal a lleihau risg i gleifion a'r cyhoedd.

3 Dangos parch at eraill

Mae dangos parch tuag at eraill yn hollbwysig wrth ffurfio a chynnal perthnasau proffesiynol.

Rhaid i chi:

- 3.1 Gydabod amrywiaeth a pharchu gwahaniaethau diwylliannol pobl a'u hawl i gael gwerthoedd a chredoau personol
- 3.2 Trin pobl mewn ffordd foesgar ac yn ystyriol
- 3.3 Peidio â chamwahaniaethu yn erbyn pobl. Sicrhewch nad yw eich barn ar ffordd o fyw, crefydd neu gredo, hil, ailgyfeirio rhyw, hunaniaeth, rhyw a chyfeiriadedd rywiol, oed, anabled, statws priodasol neu unrhyw ffactor arall yn effeithio ar y ffordd y darparwch wasanaethau proffesiynol
- 3.4 Sicrhau, os yw eich credoau crefyddol neu foisol yn eich rhwystro rhag darparu gwasanaeth, eich bod yn hysbysu'r pobl neu awdurdodau perthnasol a chyfeirio cleifion a'r cyhoedd at ddarparwyr eraill
- 3.5 Parchu a diogelu urddas a phreifatrwydd pobl. Rhaid cymryd pob cam posibl i atal gwybodaeth gyfrinachol rhag cael ei datgelu'n ddamweiniol neu gael ei chyrcu hen ganiatâd. Peidiwch byth â datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd onid yw'r gyfraith yn mynnu hynny neu mewn amgylchiadau eithriadol.
- 3.6 Sicrhau cydsyniad am y gwasanaethau proffesiynol a ddarparwch a'r wybodaeth a ddefnyddiwch am gleifion
- 3.7 Defnyddio gwybodaeth a gewch yn sgil eich gwaith proffesiynol ddim ond at y dibenion y rhoddwyd y wybodaeth honno i chi, a phan fo'n gyfreithiol i wneud hynny

- 3.8 Sicrhau eich bod yn darparu lefel briodol o breifatrwydd i gleifion yn ystod ymgynghoriadau
- 3.9 Cynnal ffiniau proffesiynol addas yn eich perthynas gyda chleifion ac eraill y dewch i gysylltiad â nhw yn ystod eich gwaith proffesiynol a rhaid bod yn arbennig o ofalus pan yn delio gyda phobl sy'n agored i niwed.

4 Annog cleifion a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal

Mae gan gleifion a'r cyhoedd hawl i fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth a'u gofal. Dylech annog cleifion a'r cyhoedd i weithio mewn partneriaeth â chi ac eraill i reoli eu hanghenion.

Rhaid i chi:

- 4.1 Gyfathrebu'n effeithiol gyda chleifion a'r cyhoedd a chymryd camau rhesymol i ddiwallu eu hanghenion cyfathrebu
- 4.2 Gweithio mewn partneriaeth gyda chleifion a'r cyhoedd, eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill i reoli eu triniaeth a'u gofal. Rhaid gwrando ar gleifion a'r cyhoedd a pharchu eu penderfyniadau
- 4.3 Egluro'r opsiynau sydd ar gael i gleifion a'r cyhoedd, yn cynnwys risgiau a buddion, i'w helpu i ddewis mewn ffordd gall. Sicrhau bod y wybodaeth a roddwch yn ddiudedd, yn berthnasol ac yn gyfredol
- 4.4 Parchu hawl person i wrthod derbyn gwasanaeth proffesiynol
- 4.5 Sicrhau y rhennir gwybodaeth mewn ffordd briodol gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill sydd ynghlwm wrth ofal claf
- 4.6 Ystyried, a gweithredu, pan yn bosibl, i fynd i'r afael â ffactorau a allai fod yn rhwystro neu atal cleifion rhag cael neu gymryd triniaeth
- 4.7 Os na all person yn gyfreithiol wneud penderfyniadau am ei ofal neu ei gofal, sicrhau bod unrhyw wasanaeth a ddarperir gennych yn unol â'r anghenion cyfreithiol priodol.

5 Datblygu eich gwybodaeth a'ch galluoedd proffesiynol

Mae gwybodaeth a sgiliau perthnasol a chyfredol yn greiddiol i ymarfer diogel ac effeithiol. Rhaid i chi sicrhau bod eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch perfformiad o safon uchel, yn gyfredol ac yn berthnasol i'r maes yr ydych chi'n gweithio ynddo.

Rhaid i chi:

- 5.1 Gydabod ble mae terfyn eich gallu proffesiynol. Rhaid ymarfer ddim ond yn y meysydd hynny yr ydych chi'n gymwys ynddyn nhw a chyfeirio at eraill os oes angen
- 5.2 Cynnal a gwella ansawdd eich ymarfer drwy sicrhau eich bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau ddiweddaraf sy'n berthnasol i'ch maes a'ch cyfrifoldebau
- 5.3 Cymhwyso eich gwybodaeth a'ch sgiliau yn briodol at eich gwaith
- 5.4 Dysgu gan asesiadau, gwerthusiadau ac adolygiadau o'ch perfformiad proffesiynol ac ymgymryd ag addysg a hyfforddiant pellach os oes angen
- 5.5 Cadw tystiolaeth gyfredol o'ch datblygiad proffesiynol parhaus.

6 Bod yn onest ac yn rhywun y gellir ymddiried ynddo

Mae cleifion a'r cyhoedd yn gorfod rhoi eu ffydd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol. Rhaid i chi ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfiawnhau'r ymddiriedaeth honno ac sy'n cynnal enw da'r proffesiwn.

Rhaid i chi:

- 6.1 Ymddwyn gydag onestrwydd ac integriti i gynnal ffydd a hyder y cyhoedd yn eich proffesiwn
- 6.2 Peidio â chamddefnyddio eich safle proffesiynol neu fanteisio ar wendid neu ddiffyg gwybodaeth pobl eraill
- 6.3 Osgoi gwrthdaro buddiannau a datgan unrhyw ddiddordebau personol neu broffesiynol a allai fod gennych. Peidiwch â gofyn am na derbyn rhoddion, gwobrau neu letygarwch a allai effeithio ar, neu gael eu hystyried fel pethau sy'n effeithio ar, eich crebwyll proffesiynol
- 6.4 Bod yn fanwl gywir ac yn ddiduedd pan yn dysgu a phan yn darparu neu gyhoeddi gwybodaeth. Rhaid i chi beidio â chamarwain neu honni pethau na allwch eu profi neu eu cyfiawnhau
- 6.5 Cyrraedd safonau derbyniol ymddygiad personol a phroffesiynol
- 6.6 Cydymffurfio ag anghenion cyfreithiol a phroffesiynol a chanllawiau cydnabyddedig ymarfer proffesiynol
- 6.7 Cadw at eich rhwymedigaethau, trefniadau a'r hyn y cytunir arno ynghylch gwasanaethau proffesiynol
- 6.8 Ymateb yn onest, yn agored ac yn gwrtais i gwynion a beirniadaeth

6.9 Ein hysbysu ni, eich cyflogwr ac awdurdodau perthnasol yn brydlon am unrhyw beth a allai olygu nad ydych yn addas i ymarfer neu a allai niweidio enw da gweithwyr fferyllol proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys problemau iechyd sy'n effeithio ar eich gallu i ymarfer, euogfarnau troseddol a chanfyddiadau cyrff neu sefydliadau rheoleiddio.



7 Cymryd cyfrifoldeb dros eich ymarferion gweithio

Mae gweithio mewn tîm yn rhan bwysig o ymarfer proffesiynol ac yn dibynnu ar barch, cydweithrediad a chyfathrebu rhwng cydweithwyr o'ch proffesiwn eich hun ac o broffesiynau eraill. Pan yn gweithio fel rhan o dîm rydych chi'n atebol dros eich penderfyniadau a'ch ymddygiad eich hun, ac unrhyw waith yr ydych yn ei oruchwyllo.

Rhaid i chi:

- 7.1 Ymarfer ddim ond os ydych yn addas i wneud hynny
- 7.2 Sicrhau bod gennych chi a phawb rydych chi'n gyfrifol drosto neu drosti y sgiliau iaith i allu cyfathrebu a gweithio mewn ffordd effeithiol gyda chydweithwyr
- 7.3 Cyfrannu at ddatblygiad, addysg a hyfforddiant cydweithwyr a myfyrwyr, a rhannu eich gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd
- 7.4 Cymryd cyfrifoldeb dros pob darn o waith a wnewch neu yr ydych yn gyfrifol amdano. Rhaid sicrhau eich bod yn dirprwyo tasgau ddim ond i bobl sydd wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol at y dasg honno, neu sydd wrthi'n cael eu hyfforddi
- 7.5 Sicrhau ei bod hi'n amlwg pwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth penodol pan yn gweithio mewn tîm
- 7.6 Bod yn sicr fod gweithdrefnau gweithredol addas yn eu lle ac yn cael eu dilyn
- 7.7 Sicrhau eich bod yn cadw at eich cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol ac nad yw eich llwyth gwaith neu amgylchiadau gweithio yn creu risg i ofal cleifion neu ddiogelwch y cyhoedd

- 7.8 Sicrhau nad yw eich gweithredoedd chi yn atal eraill rhag cadw at eu cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol, neu yn creu risg i ofal cleifion neu ddiogelwch y cyhoedd
- 7.9 Sicrhau bod yswiriant indemniad proffesiynol addas yn bodoli ar gyfer eich gwaith i gyd, neu'r gwaith yr ydych yn gyfrifol amdano
- 7.10 Sicrhau bod gweithdrefn gwyno effeithiol ar gael yn eich lle gwaith a rhaid dilyn y drefn honno wastad
- 7.11 Hysbysu'r awdurdod perthnasol am unrhyw bolisiau, systemau, amodau gwaith, neu weithredoedd, perfformiad proffesiynol neu iechyd eraill os gallent effeithio ar ofal cleifion neu ddiogelwch y cyhoedd. Os â rhywbeth o'i le neu os mynega rywun bryder i chi, rhaid sicrhau eich bod yn delio ag ef yn briodol
- 7.12 Cydweithio gydag unrhyw ymchwiliadau i'ch addasrwydd chi, neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, i ymarfer a chadwch at rwymedigaethau neu gyfyngiadau a osodir arnoch yn ystod ymchwiliad.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gopi o'r ddogfen hon yn Saesneg ewch i www.pharmacyregulation.org/standards/conduct-ethics-and-performance lle gallwch lawr lwytho PDF. Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm cyfathrebu:
E-bost: communications@pharmacyregulation.org

Os oes gennych gwestiynau am, neu sylwadau ar, gynnwys y safonau, cysylltwch â'r Tîm Safonau:

Tîm Safonau
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

Ffôn: 020 3713 8000
E-bost: standards@pharmacyregulation.org

Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu canllawiau ar bynciau eraill a allai fod o ddiddordeb i chi:

www.pharmacyregulation.org/standards/guidance

(H) Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2014
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ
Ffôn: 020 3713 8000
www.pharmacyregulation.org

**Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol**

©General Pharmaceutical Council 2014